## GORCHYMYN FFORDD FYNEDIAD GWAITH DUR YR A4810 (QUEEN'S WAY) (LLAN-WERN, CASNEWYDD) (TERFYNAU CYFLYMDER A CHLIRFFORDD DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd sy'n teithio hyd nes y caiff gorchymyn traffig parhaol ei gyflwyno ar Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way), Llan-wern yn Ninas Casnewydd.

Effaith y Gorchymyn fydd:

i. gosod terfyn cyflymder o 30 mya ar hyd y darn o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;

ii. gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar hyd y darnau o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;

iii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar hyd y darnau o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn; a

iv. creu clirffordd yn y darn hwnnw o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol i ddangos eu hyd a'u lled, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 16 Mehefin 2023 ac y bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf neu hyd nes y bydd gorchymyn traffig parhaol mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A4810 STEELWORKS ACCESS ROAD (QUEEN'S WAY), (LLANWERN, NEWPORT) (TEMPORARY SPEED LIMITS AND CLEARWAY) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to ensure the safety of the travelling public until a permanent traffic Order is introduced on the A4810 Steelworks Access Road (Queen's Way), Llanwern in the City of Newport.

The effect of the Order will be to:

i. impose a 30 mph speed limit along the length of the access road specified in Schedule 1 to this Notice;

ii. impose a 40 mph speed limit along the lengths of the access road specified in Schedule 2 to this Notice;

iii. impose a 50 mph speed limit along the lengths of the access road specified in Schedule 3 to this Notice; and

iv. create a clearway in that length of the access road specified in Schedule 4 to this Notice.

The temporary prohibition and restrictions, the extent of which will be signed accordingly, are expected to come into force at 00:01 hours on 16 June 2023 and remain in force for a maximum duration of 18 months or until a permanent traffic order is in force.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**Darnau o Ffordd Fynediad y Gwaith Dur (Queen's Way), Llan-wern, Casnewydd**

## ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 30 MYA

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r dwyrain o berimedr Cylchfan Longditch hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 40 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau hyd at bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganol ffordd fynediad ymyl Air Products hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

## ATODLEN 3

### Terfyn Cyflymder 50 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o ganol Cyffordd North Row.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row hyd at bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganol ffordd fynediad ymyl Air Products.

## ATODLEN 4

### Clirffordd

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r dwyrain o berimedr Cylchfan Longditch hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row, cyfanswm pellter o 5 cilometr.

**Lengths of the Steelworks Access Road (Queen's Way), Llanwern, Newport**

## SCHEDULE 1

### 30 MPH Speed Limit

That length of the access road that commences from a point 28 metres east of the Longditch Roundabout perimeter to a point 206 metres east of the centre of the Glan Llyn signal controlled junction.

## SCHEDULE 2

### 40 MPH Speed Limit

That length of the eastbound carriageway of the access road that commences from a point 206 metres east of the centre of the Glan Llyn signal controlled junction to a point 41 metres east of the centre of the Newport Galvanisers signal controlled junction.

That length of the westbound carriageway of the access road that commences from a point 173 metres east of the centre of the Air Products side road access to a point 206 metres east of the centre of the Glan Llyn signal controlled junction.

## SCHEDULE 3

### 50 MPH Speed Limit

That length of the eastbound carriageway of the access road that commences from a point 41 metres east of the centre of the Newport Galvanisers signal controlled junction to a point 10 metres west of the centre of the North Row Junction.

That length of the westbound carriageway of the access road that commences from a point 10 metres west of the North Row Junction to a point 173 metres east of the centre of the Air Products side road access.

## SCHEDULE 4

### Clearway

That length of the access road that commences from a point 28 metres east of the Longditch Roundabout perimeter to a point 10 metres west of the North Row Junction, a total distance of 5 kilometres.